COFNODION CYFARFOD CYNGOR CYMUNED LLANGYNDEYRN A GYNHALIWYD AR 5ed o FEDI 2016 YN SWYDDFA'R CYNGOR, NEUADD PONTIETS AM 7.00.
Presennol: Alan Lewis (yn y gadair),Geraint Rosser,Ian Evans,Tyssul Evans,Heddwyn Jones,Margaret Rees,Geoff Hewitt, Meic Bowen a'r Clerc,Glyndwr Prideaux

Ymddiheuriadau: Linda Williams,Aled Williams,Carrie Rees,Wendy Evans,Ellis Jenkins a Richard Thomas

Materion Personol

1511 Croesawyd pawb i'r Cyfarfod gan y Cadeirydd. Estynnodd cydymdeimlad y Cyngor ar farwolaeth y diweddar Gyn-gynghorwr Eifion Roberts, Eiros, Bancffosfelen a fu yn Gynghorwr ar Gyngor Cymuned Llangyndeyrn am dros 30 o flynyddoedd. Safodd pawb am funud mewn coffadwriaeth.

1512 Cofnodion
Derbyniwyd a llofnodwyd cofnodion y Cyfarfod diwethaf ar 11/07/2016 fel rhai cywir.

1513 Materion yn codi.

Tud 1. Cofnod Rhif 1476 - Arwyddion Ceffylau yng Ngharwe – Mae'r arwyddion wedi eu gosod.

Tud 4. Cofnod 1476 - Dylai'r cofnod nodi mai dros wal TŶ ar Heol y Meinciau y mae'r sbwriel yn cael ei daflu.

1514 Cyflwyniad Shared Access

Gohiriwyd trafodaeth ar y mater gan na ddaeth cynrychiolaeth o'r Cwmni i'r Cyfarfod. Penderfynwyd galw Cyngor Arbennig i drafod hwn yn unig.

Gohebiaeth

Ceisiadau am grant/cyfraniadau ariannol:-

1515 Llanelli & District Fundraising Group- Guide Dogs Cymru – Penderfynwyd danfon cyfraniad o £100.

Cynghorwr Tyssul Evans yn datgan diddordeb, arwyddo'r ffurflen a gadael y cyfarfod.

1516 Pwyllgor Neuadd Pontiets - Carped newydd i'r Neuadd - Penderfynwyd danfon cyfraniad o £360.Tuag at garped grisiau'r Swyddfa.

Tyssul yn ail ymuno a'r cyfarfod.

1517 Eisteddfod Gadeiriol Llandyfaelog – Penderfynwyd danfon cyfraniad o £100.

1518 Meinciau Sports Short Mat Bowls – Penderfynwyd danfon cyfraniad o £500.

1519 Carmarthen & District Youth Opera – Penderfynwyd danfon cyfraniad o £25.

1520 Ffederasiwn Clybiau Ffermwyr Ifanc Sir Gar – Penderfynwyd danfon cyfraniad o £100.

1521 Llyfrau Llafar Cymru – Llythyr yn diolch am y rhodd.

1522 Bethel Llangyndeyrn – Llythyr yn diolch am y rhodd.

1523 Cylch Meithrin Carwe – Llythyr yn diolch am y rhodd.

1524 South Wales Multiple Sclerosis Therapy Centre. – Llythyr yn diolch am y rhodd.

1525 Neuadd Carwe – Llythyr yn diolch am y rhodd tuag at y Storfa Newydd.

1526 Urdd Gobaith Cymru - Apêl Sir Gaerfyrddin - Llythyr yn diolch am y rhodd.

1527 St John's Cymru – Llythyr yn diolch am y rhodd.

Gohebiaeth gyffredinol :-

1528 Cyngor Sir Gar – Hysbysiad ynghylch Newid category iaith Ysgol Gyfun Gymraeg Bro Myrddin – Nodwyd y llythyr.

1529 Cyngor Sir Gar - Cais am Grant Llwybrau Diogel Mewn Cymunedau - Penderfynwyd gwneud cais am Lwybrau i Ysgolion Carwe a Gwynfryn.

Ceisiadau Cynllunio

1530 Ceisiadau Cynllunio

a) Mr Robin Gerard – 3,Maesglas,Pontiets – Lle Parcio – Dim Gwrthwynebiad
b) Ann Pinder – 2, Tanerdy Cottages,Pontiets – Estyniad – Dim Gwrthwynebiad
c) Mr Geoffrey Bain – Nes at 1, Heol Nasareth, Pontiets – Newid amodau – Dim Gwrthwynebiad
Ch) Amanda Evans – 136,Heol y Meinciau, Pontiets, Estyniad – Dim Gwrthwynebiad
d) Mr Desmond Guest – 29,Heol Nasareth, Pontiets – Garej – Dim Gwrthwynebiad
dd) Mr Thomas Geraint Phillips - Llwynteg Van, Pontantwn - Tyrbin - Dim Gwrthwynebiad
e) Ms Rebecca Richards – Ffarm Pengelli, Pontantwn – Estyniad – Dim Gwrthwynebiad

Adroddiad o Daliadau a Threuliau'r mis

1531 Derbyniwyd adroddiad ariannol Mis Gorffennaf a Mis Awst 2016.Derbyniwyd argymhelliad y Clerc ein bod yn trosglwyddo gweddillion rhan o'r gyllideb sydd heb eu gwario i'r lein gyffredinol.

Adroddiad Ariannol Misol

1532 Penderfynwyd bod y canlynol i'w dalu :-
a) Cyflog y Clerc - £371.25 (Mis Gorffennaf)
b) Ffon Tŷ'r Clerc - £25.00 (Mis Gorffennaf)
c) Cydnabyddiaeth y Syrfëwr - £97.52 (Mis Gorffennaf)
ch) HMRC (Treth)- £74.20 (Mis Gorffennaf)
d) Ffon Symudol y Cyngor - £9.98 (Mis Gorffennaf)
dd) BT – Ffon y Swyddfa - £57.37(Mis Gorffennaf)
e) Stampiau - £24.18
f) Back-Up Hard Drive - £59.99
ff) BT – Ffon y Swyddfa - £50.28 (Mis Awst)
g) Ciran Griffiths – Torri Gwair, Parc Carwe - £30.00
ng) Cyflog y Clerc - £388.61 (Mis Awst)
h) Ffon Tŷ'r Clerc - £25.00 (Mis Awst)
` **i)** Cydnabyddiaeth y Syrfëwr - £100.00 (Mis Awst)
l) HMRC (Treth) - £74.20 (Mis Awst)

m) Ffon Symudol y Cyngor - £9.98 (Mis Awst)
n) Mark Rees – Scalps - £260.50
o) Neuadd Pontiets – Rent y Swyddfa - £2000.00

Trosglwyddwyd £3964.67 o ad-daliad TAW i Gronfa Ffoslas.

Offer Chwarae Parc Carwe

1533 Derbyniwyd amcan brys o £2631.60 oddiwrth y Wicksteed am siglen ychwanegol i'r Plant hyn

Toiledau'r Meinciau

1534 Cafwyd adroddiad gan y Clerc bod y Gofalydd wedi marw. Penderfynwyd gwneud ymholiadau lleol a thrafod y mater ymhellach yn y cyfarfod nesaf.

Cyfansoddiad y Cyngor

1535 Penderfynwyd ein bod yn gwneud cais i'r Cyngor Sir i newid aelodaeth y Cyngor ar sail Etholwyr fel y ganlyn :-
a) Ward Carwe – 3 Cynghorwr
b) Ward Pontiets – 6 Cynghorwr
c) Ward Llangyndeyrn – 3 Cynghorwr

Materion Cynghorwyr

1536 Ian - Gofyn am ddiweddariad ar ein cais am 20 milltir yr awr tu allan i Ysgol Carwe.

1537 Meic - Gofyn am ddiweddariad oddiwrth Gary Baxter a Darren King ynglyn a'r dŵr ar yr Heol rhwng Carwe a Phontiets.

1538 Margaret - Gofyn am ddiweddariad ynglŷn â'r Cyfarfod Safle i drafod cyflymdra yn Heol Dwr, Llangyndeyrn

1539 Alan - Cysylltu â Ian J Thomas ynglŷn â marciau 'Give Way' ger Hafodhedd a Ffarm Gelligatrog.

Cyfarfod nesaf:- 3 o Hydref 2016 yn Festri Capel Salem, am 7.00 o'r gloch.
(Cyfarfod Cynllunio am 6.45 o'r gloch)

Llofnodwyd……. CADEIRYDD

Dyddiad……